


# SGILIAU AR GYFER TWF

Mae Gogledd Cymru yn gartref i ddwy brifysgol: Mae Prifysgol Bangor wedi'i lleoli yng Ngogledd Orllewin Cymru ac mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi'i lleoli yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, gyda dau sefydliad addysg arall: Mae Grŵp Llandrillo Menai gyda safleoedd ar draws Gogledd Orllewin Cymru a Choleg Cambria sydd â safleoedd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Mae Cyllid yr UE wedi cynorthwyo prosiectau i gynyddu'r lefel sgiliau'r gweithlu a chael mynediad at hyfforddiant, gwella nifer sydd yn gymwys i lefel canolradd neu uwch, lleihau'r nifer sydd gyda dim sgiliau neu sgiliau sylfaenol yn unig, a chynyddu sgiliau lefel uwch mewn ymchwil ac arloesi.

Yn ogystal mae cyllid y UE wedi helpu i leihau anghydraddoldebau yn y farchnad llafur ymysg merched ac i gefnogi gweithlu cryfach ac mwy amrywiol.

Bu i'r **Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Gogledd Cymru** sefydlu a hwyluso ***Rhwydwaith Blaenoriaeth 2 Cronfa Gymdeithasol Ewrop 'Sgiliau ar gyfer Twf'*** a oedd yn cyfarfod tair gwaith y flwyddyn gan ddod â phrosiectau Sgiliau ar gyfer Twf at ei gilydd, wedi'i arwain gan brifysgolion a cholegau ledled Cymru. Ymunodd sefydliadau eraill dros y blynyddoedd megis Busnes Cymru, SERCO - Restart, a rhaglen cyflogadwyedd Adran Gwaith a Phensiynau, a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn rhannu cyfoeth o wybodaeth a chydweithio parhaus. Cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb i ddechrau a barhaodd i fod yn gyfarfodydd ar y we yn ystod y pandemig.

*"Mae bod yn rhan o gyfarfodydd Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Twf Blaenoriaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi bod yn werthfawr iawn i brosiect Academi Busnes Gogledd Cymru. Roedd bod yn brosiect rhanbarthol, aml bartner yn darparu Cymwysterau Addysg Uwch unigryw ar draws Gogledd Cymru angen cydweithio sylweddol a rhannu gwybodaeth i fod yn llwyddiannus. Drwy ddod â'r holl brosiectau at ei gilydd i rannu diweddariadau ac arferion gorau, roedd NWBA yn gallu dysgu'n gyflym o brosiectau eraill a chydweithio ar weithgareddau megis Marchnata ac Ymgysylltu â Chyflogwyr i sicrhau bod buddiolwyr yn cael mynediad at draws-doriad o fanteision sgiliau. Hefyd roedd y rhwydwaith yn fy nghaniatáu i greu perthynas newydd gyda rhanddeiliaid allweddol ledled Gogledd Cymru a hyrwyddo ein cynnig drwy eu cylchlythyr. Yn cynnwys swyddogion personél allweddol yn rheolaidd o WEFO mewn cyfarfodydd ar dasgau prosiectau penodol megis cau prosiect, cefnogi a dilysu, roeddem yn cymryd y dull cywir i gau'r prosiect."*

**Gary Jones - Academi Fusnes Gogledd Cymru (NWBA)**

*"Fel partner Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Twf Blaenoriaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mae wedi bod o fudd mawr. Mae rhannu manylion ynglŷn â'n rhaglenni Arweinyddiaeth, cydweithio a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid eraill wedi bod yn amhrisiadwy. Wrth gael cefnogaeth a chymorth ychwanegol i arddangos ein gweithgareddau a digwyddiadau marchnata, mae'r rhwydwaith wedi bod yn adnodd ardderchog. Mae'r rhwydwaith hefyd wedi helpu i sefydlu perthnasau cadarn gyda budd-ddeiliaid allweddol.*

*Mae'r newyddlen RET wedi bod yn fuddiol o ran rhannu manylion ein rhaglenni a ariennir, sydd yna wedi cefnogi twf busnesau ar draws Gogledd Cymru".*

**Jackie Whittaker, Uwch Reolwr Arweinyddiaeth ION a Thwf Busnes 20Twenty**

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cynhyrchu a dadansoddi Adroddiad Gwybodaeth am Farchnad Lafur Gogledd Cymru trwy ymgysylltu â chyflogwyr, darparwyr sgiliau a budd-ddeiliaid lleol allweddol i ddeall a datrys camgymariadau sgiliau ar lefel ranbarthol a lleol; sydd yna'n cael ei fwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru ar y ddarpariaeth sgiliau yn seiliedig ar safbwynt cyflogwyr trwy adroddiad 3 mlynedd. Mae'r RSP yn gweithio gyda phartneriaid prosiect i ddeall y gofynion sgiliau o fewn buddsoddiadau Bargen Dwf. Ar ôl i'r rhain gael eu hadnabod, maent yn casglu'r wybodaeth hon ac yn gofyn i ddarparwyr lleol a Llywodraeth Cymru i lobïo ar gyfer newidiadau mewn darpariaeth.

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gweithio gyda Bargen Dwf Gogledd Cymru i sicrhau fod cronfa addas o dalent yn y rhanbarth i ymateb i swyddi a grëwyd. Mae hyn wedi bod yn allweddol, hyd yn oed yn fwy ers y pandemig, gan fod meddylfryd a chanolbwynt pobl wedi newid gan ddangos patrymau amrywiol mewn rhai sectorau a chreu prinder gweithwyr allweddol.

Yn 2019, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gymryd safbwynt mwy strategol a hirdymor o'r system sgiliau yn y rhanbarth trwy gynhyrchu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 2019-2022 tair blynedd. Nod y cynllun yw ceisio gwneud i'r system sgiliau Gogledd Cymru weithio'n galetach ac yn ddoethach i ddiwallu swyddi, yn awr ac i'r dyfodol. Yn tanategu'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth mae tair blaenoriaeth sgiliau trosfwaol sydd eu hangen i gefnogi twf sectorau yn yr economi. Lluniwyd y blaenoriaethau gan dystiolaeth helaeth ar anghenion rhanbarthol, adborth o ymgynghori gan ystod eang o gyflogwyr, darparwyr a budd-ddeiliaid allweddol.

Blaenoriaeth 1: Adeiladu ein gweithlu a denu talent

Blaenoriaeth 2: Datblygu sgiliau i greu Gogledd Cymru cynhwysol

Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth, a llwybrau a chanfyddiadau gyrfaoedd.

Ers hynny mae'r RSP wedi cynhyrchu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 2023-2025 3 mlynedd arall a llyfryn canllaw i Brentisiaethau Uwch a Gradd
Gwefan Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru: https://www.rspnorth.wales

Yn dilyn pandemig COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad allweddol i ddarparu cymorth i bawb o dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru, i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, a chymorth i gael gwaith neu ddod yn hunangyflogedig. Bydd y rhaglen a elwir yn 'Gwarant i Bobl Ifanc' yn helpu i sicrhau nad oes "cenhedlaeth goll" yng Nghymru.

# BLAENORIAETH 2 CGE: Sgiliau ar gyfer Twf

## Gweithwyr heb unrhyw lefel/lefel isel o gymwysterau

**Prentisiaethau**
Darparu cyfleoedd i'r rhai o oedran gwaith i ennill sgiliau ar lefel canolradd o leiaf, ar draws ystod o sectorau galwedigaethol. Cymwysterau hyd at lefel 6 (Ledled Cymru)

**Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr (SEE)**
Cefnogi cyflogwyr i ddatblygu gweithlu medrus ac addasadwy trwy hyfforddiant a datblygiad â chymhorthdal. Mae hyfforddiant galwedigaethol ar gael mewn amrywiaeth o sectorau allweddol (Ledled Cymru)

## Gwella safle merched yn y gweithlu

**BioArloesi Cymru**
Gweithio yn y sectorau bwyd-amaeth a biodechnoleg
Hwyluso a rheoli arloesedd o fewn eu gweithlu. EW

Cenedl Hyblyg 2
Hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, datblygiad gyrfa a chyfrannu tuag at leihau'r bwlch cyflog yn y farchnad lafur. Darparu cymorth a mentora sgiliau ar gyfer merched mewn gwaith gan alluogi cynnydd o ran y gweithle yn defnyddio eu sgiliau yn llawn (Ledled Cymru)

## Lefel Canolradd ac Uwch

**Academi Fusnes Gogledd Cymru (NWBA)**
Darparu cymwysterau academaidd a gwybodaeth ddamcaniaethol gyda defnydd ymarferol yn y gweithle. Yn darparu 10 modiwl credyd ar lefelau 4-6 ar draws ystod eang o bynciau gwahanol. (Gogledd Cymru)

**Arweinyddiaeth ION: Rhaglen Arweinyddiaeth Newydd**
Cynyddu sgiliau a gyrru cynhyrchiant a throsiant mewn busnes o unrhyw faint. Lefel 3 (WWV)

**Uwchsgilio Diwydiant i Gymru (I4Wales)**
Cymwysterau Addysg Uwch achredediig i gefnogi cwmnïau gweithgynhyrchu'r gadwyn gyflenwi 1, 2 a 3. Angen cymhwyster lefel 3 i ymuno (Ledled Cymru)

**METaL 2**
Cyrsiau byr STEM yn y gwaith yn y sector Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch. Cymwysterau Lefel 4 ac uwch, (Ledled Cymru)

**Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr (SEE)**
Cefnogi cyflogwyr i uwchsgilio'r gweithlu drwy hyfforddiant a datblygiad â chymhorthdal (Ledled Cymru)

**20Twenty**
Mae 20Twenty yn cynnig rhaglenni datblygu busnes ac arweinyddiaeth o lefel 3 - 7 (EW)

## Cynyddu cymwysterau gradd neu gyfystyr

**Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS 2)**
Prosiectau ymchwil cydweithredol (PhD a Meistr Ymchwil) yn gysylltiedig â busnesau bach a chanolig a Phrifysgolion, yn hyrwyddo arloesedd ac ymchwil. (Ledled Cymru)

**Gradd Meistr mewn Arloesedd Rhyngwladol**
Ar gyfer gweithwyr proffesiynol gweithgynhyrchu er mwyn deall pwysigrwydd arloesedd a gyrru twf busnes. Cymhwyster meistri neu gwrs 32 wythnos byrrach. Modiwlau rheoli ar lefel 7 (WWV)

**BioArloesi Cymru**
Gweithio yn y sectorau bwyd-amaeth a biodechnoleg Hwyluso a rheoli arloesedd o fewn y gweithlu. Cymwysterau pwrpasol, sgiliau achredediig wedi'u teilwra WWV

**Cynhyrchion y Cyfryngau Uwch (AMP)**
Darparu hyfforddiant achredediig i wneud y mwyaf o dechnolegau newydd yn y cyfryngau a darparu sgiliau newydd yn y diwydiannau twristiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a chreadigol. Canolbwyntio ar Rhith-wirionedd a Realiti Estynedig (WWV)

**Arweinyddiaeth ION: Rhaglen Arwain Twf**
Modiwl ILM Lefel 5 a Lefel 7 (WWV)

**20Twenty** - yn cynnig MBA Gweithredol (EW)

| **Sgiliau ar gyfer Twf Blaenoriaeth 2** (o fis Rhagfyr 2022 ymlaen) | |
|---|---|
| Cyfanswm y rhaglenni | 35 (20 – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 15 - Dwyrain Cymru) |
| Dysgwyr a gefnogwyd hyd yma | DROS 164,500 |
| SO 1 - Lefelau 1 a 2 | 63,694 |
| SO 2 - Lefel 3 ac uwch | 94,884 |
| SO3 - Graddedigion / doethuriaid | 2,018 |
| SO4 - Cydraddoldeb rhyw | 5,592 |
| Cyfanswm | 166,188 |

Isod ceir detholiad o astudiaethau achos a thystebau o brosiectau Sgiliau ar gyfer Twf Blaenoriaeth 2 Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales

## Prentisiaethau

### Albert Brennan - Rownd Derfynol – Uwch Brentis y Flwyddyn

Mae gyrfa Albert Brennan fel peiriannydd straen gydag Airbus ym Mrychdyn wedi mynd o nerth i nerth o ganlyniad i'r sgiliau a'r wybodaeth a enillodd yn ystod Prentisiaeth Gradd.

Mae Albert, 29, o Gefn-y-Bedd, Wrecsam yn gweithio yng nghanolfan ragoriaeth fyd-eang y cwmni sy'n cynhyrchu adenydd ar gyfer awyrennau Airbus.

Cwblhaodd Brentisiaeth Gradd (Lefel 6) mewn Peirianneg Awyrennau trwy Brifysgol Abertawe, gan ennill Gradd Baglor mewn Peirianneg Awyrennau a Gweithgynhyrchu a NVQ Lefel 4 mewn Gweithgynhyrchu Peirianneg.

Mae Albert bellach yn astudio ar gyfer Gradd Meistr mewn Strwythurau Ysgafn a Pheirianneg Gwrthdaro, ar ôl cael cynnig ysgoloriaeth lawn gan y Ganolfan Ymchwil Uniondeb Strwythurol Genedlaethol (NSIRC).

Mae'n Beiriannydd Corfforedig ac yn Aelod Cyswllt o'r Gymdeithas Awyrenneg Frenhinol, ac enillodd wobr y Myfyriwr Gorau gan Brifysgol Abertawe.




### Astudiaeth Achos - Boglarka-Tunde Incze (Enillydd Gwobr Prentis Sylfaen)



Mae prentisiaethau yn helpu'r arweinydd tîm gofal cartref, Boglarka-Tunde Incze, i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl y mae hi'n gofalu amdanynt ac yn gweithio â nhw.

I ddechrau roedd Boglarka, o Lanrug, yn defnyddio'i Gradd Baglor mewn Cyfrifiadureg a enillodd yn Romania, i weithio i gwmnïau rhyngwladol.

Cymerodd swydd ychwanegol fel gofalwraig ran-amser, lle'r oedd yn cefnogi pobl yn eu cartrefi. Mwynhaodd y gwaith hwn gymaint nes iddi benderfynu newid gyrfa yn ystod y pandemig.

Ar ôl cwblhau Prentisiaethau Lefel 2 a 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda gwasanaeth sgiliau a chyflogaeth Itec, hoffai gymhwyso fel asesydd.

**Prentisiaethau: Stori Jake**

**Prentis yn dod â chwa o awyr iach i gwmni tyrbinau gwynt.**

Mae gŵr ifanc uchelgeisiol 20 mlwydd oed yn annog pobl sydd yn gadael ysgol i ystyried prentisiaethau fel llwybr carlam ar gyfer eu gyrfa.

Mae Jake Carey, prentis peirianneg ynni gwynt, yn dilyn ôl traed ei deulu drwy hyfforddi i weithio ar dyrbinau gwynt, ffynhonnell ynni adnewyddadwy fwyaf Cymru, gan chwarae ei ran wrth fynd i’r afael ag argyfwng yr hinsawdd.

Dywedodd:

“Wrth dyfu i fyny yn Llandudno, fedrwch chi ddim peidio â sylwi ar y tyrbinau gwynt wrth gerdded ar hyd glan y môr, ond wnes i fyth ddychmygu y byddwn yn un o’r ychydig rai sydd yn hwylio allan ac yn gweithio arnyn nhw!

Rwy’n credu y gallwn i’n hawdd fod wedi bod yn un o’r bobl hynny sydd yn mynd i banig wrth feddwl am beth mae am ei wneud ar ôl gadael yr ysgol, a chopïo llwybr gyrfa ei ffrind yn awtomatig.

Fodd bynnag, roedd gen i ddiddordeb mewn peirianneg, electroneg a gwyddoniaeth erioed, ond yn yr ysgol doedd dim cyfle i'w hastudio mewn mwy o fanylder. Cefais fy annog a’m hysbrydoli gan fy ewythr i feddwl am brentisiaeth fel ffordd dda o ddysgu mwy a chael troed i mewn i’r sector STEM.

Rydw i wrth fy modd gyda phob munud o’r cwrs yng Ngholeg Llandrillo, ac er bod llawer o theori ac elfennau technegol i’w dysgu cyn inni fedru gweithio ar y tyrbinau eu hunain, mi wn y byddaf yn rhoi’r holl theori ar waith yn ymarferol cyn gynted â bod hynny’n ddiogel.

Rydw i hefyd wedi gallu dysgu gan fecanyddion a pheirianwyr eraill sydd wedi bod wrthi’n gwneud y gwaith am flynyddoedd, ac maen nhw wedi bod yn fentoriaid anhygoel imi ar hyd y daith.”



**SEE (prosiect Sgiliau i Gyflogwyr a Gweithwyr) - Coleg Cambria**

Mae'r prosiect Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr yn gyfle cyffrous gwerth £18.7m i weithwyr ac i gyflogwyr busnes. Wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru, bydd y prosiect hwn yn helpu i ddatblygu sgiliau staff a chreu gweithlu cymwys iawn, gan alluogi busnesau i gyflawni mwy o lwyddiant masnachol yn y dyfodol.

Sefydlwyd Sgiliau i Gyflogwyr a Gweithwyr i ddarparu cynnydd sylweddol i'r economi lleol, wrth gynnig hyfforddiant â chymhorthdal i 7,000 o weithwyr. Mae'n targedu sectorau allweddol gan gynnwys: bwyd, economi ddigidol, gwyddorau bywyd ac iechyd, gweithgynhyrchu uwch, twristiaeth, adloniant a hamdden, gofal, adeiladu, ac ynni a charbon isel.

**Astudiaeth achos – Jennifer – Gwella sgiliau er mwyn datblygu fy ngyrfa**

Dechreuais gyda'r GIG ym mis Tachwedd 2003 yn yr Adran AD yn recriwtio meddygon ar gyfer Ysbyty Wrecsam Maelor. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rwyf wedi astudio cymwysterau NVQ i ddysgu mwy o sgiliau ac i wella fy ngyrfa, gan eu bod yn gymwysterau uchel eu parch ac yn cael eu rhestru fel elfen hanfodol ym mhob manyleb swydd pan fydd swydd wag yn cael ei hysbysebu. Ers 2003 rwyf wedi datblygu fy sgiliau a'm gwybodaeth yn barhaus ac fe gefais ddyrchafiad o fewn AD ac yna'n llwyddiannus pan gyflwynais gais ar gyfer fy rôl bresennol lle rwy'n cynnal cronfa ddata o feddygon ar gyfer Gogledd Cymru ac yn rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i feddygon iau. Fel rhan o ofynion y rôl roedd angen cymwysterau NVQ neu gymwysterau lefel gradd.

O ganlyniad i dderbyn fy NVQ Lefel 3 mewn Busnes a Gweinyddu, roeddwn yn gallu gwneud cais am y swydd rwy'n ei gwneud yn awr, gan fod angen y lefel hon o gymhwyster. Mae fy rôl bresennol yn gyrhaeddiad i mi, gan ei bod yn golygu fy mod yn gweithio gydag academyddion o bob lefel o fewn fy sefydliad. Rwy'n cael llawer o foddhad yn fy rôl, gan gynnwys sut yr wyf yn gallu rhyngweithio gyda meddygon iau, gan ddarparu cyngor ac arweiniad i'w cefnogi wrth iddynt ddatblygu yn eu rôl a'u gyrfaoedd. O ganlyniad i ofynion fy swydd, rwyf wedi parhau i ddatblygu a dysgu, derbyn profiad a magu hyder. Gallaf yn awr ddarparu cyflwyniad yn hyderus fel rhan o'r Sesiwn Gyflwyno i Feddygon Iau ddwywaith y flwyddyn, lle mae cynrychiolwyr o'r ymddiriedolaeth gyfan, ysbytai ac adrannau penodol yn bresennol. Rwy'n gallu rhyngweithio'n rhwydd gyda'r meddygon iau a'r uwch aelodau o staff yr ysbyty sy'n bresennol ar gyfer y digwyddiadau hyn. Mae'r dystiolaeth o fy rôl wedi cyd-fynd yn dda ar gyfer y diploma ac roeddwn yn falch wrth drafod yr unedau fod gennyf y cymwyseddau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddiwallu'r gofynion yn effeithiol.

**'Gan fy mod wedi cael mynediad at gyllid, rwy'n hynod ddiolchgar fy mod yn gallu cwblhau'r cymhwyster, gan na fyddwn wedi gallu gwneud hynny heb gyllid. Rwy'n hynod ddiolchgar am yr holl gefnogaeth sy'n dod law yn llaw â'r cymhwyster e.e. adnoddau'r coleg a chefnogaeth uniongyrchol gan fy asesydd sydd wedi bod ar gael drwy'r amser tra roeddwn ar y rhaglen i gynnig ei chefnogaeth.'**

Wrth astudio ar gyfer y cymhwyster - daeth pandemig Covid i'r amlwg. Roedd hyn yn sicr yn effeithio ar fy ngallu i weithio ar gymhwyster NVQ, roedd gennyf waith ychwanegol i'w wneud o fewn fy rôl gyda'r GIG a hefyd nid oedd modd cwrdd â'r asesydd NVQ oherwydd cyfyngiadau Covid felly roedd yn rhaid cyfathrebu dros Microsoft Teams / e-bost. Dyma'r dull cyfathrebu a ffefrir gan fy nghydweithwyr, gan ein bod wedi'n lleoli ledled Cymru ac roeddem yn defnyddio hyn ar gyfer asesiadau cymwysterau ond byddai'n well gennyf gael cwrdd wyneb yn wyneb gyda Sheila i drafod ac egluro unrhyw ymholiadau'n hawdd. Rwy'n falch ein bod bellach yn gallu cyfarfod eto i ddod â'r agweddau sy'n weddill i ben a llwyddais i gwblhau fy ngwaith NVQ.

***"Mae'r cymhwyster hwn yn bwysig i mi ac rwy'n ei weld yn ddiddorol iawn ac rwy'n mwynhau ei wneud."***

Cyngor Gwynedd Council · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru EU Funds: Investing in Wales

**Academi Busnes Gogledd Cymru**

Mae prosiect arloesol Academi Busnes Gogledd Cymru NWBA yn harneisio doniau, sgiliau ac arbenigedd cyfunol Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam. Y prif nod yw cynnig hyfforddiant a gwasanaeth mentora penodol, wedi'I seilio ar gyflawni twf busnes strategol tymor hir, i fusnesau Gogledd Cymru.

**Astudiaeth achos – Blighty Booch Kombucha**

Creadigaeth yr entrepreneur Mark Pavey yw Blighty Booch Kombucha. Yn flaenorol yn Rheolwr Prosiect proffesiynol yn y diwydiant cerdd datblygodd y syniad ar gyfer ei gwmni yn dilyn cyfnod o salwch. Parodd hyn iddo gymryd diddordeb yn nodweddion iechyd te brag, Kombucha a ddaeth ar ei draws wrth deithio yng Nghanada.

Gallai y diddordeb hwn mewn diod iach a allai gynnig manteision iechyd sylweddol iddo'i hun a nifer o bobl eraill arwain at greu Blighty Booch Kombucha - un o frandiau bwyd iechyd diweddaraf Cymru. Mae Kombucha yn ddiod te brag sydd ag ystod gyfan o fanteision iechyd, yn enwedig ar gyfer iechyd y perfeddyn - y "microbiom", cysyniad sydd wedi dod yn llawer mwy poblogaidd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae yna gyffro gwirioneddol ynglŷn â Blighty Booch Kombucha. Derbyniodd Mark yn ddiweddar Grant Partneriaeth Arloesi gwerth £70,000 i gwblhau astudiaeth ymarferoldeb. Mae ar hyn o bryd yn cyd-weithio gyda Chanolfan Technoleg Bwyd Grwp Llandrillo Menai, Jin Aber Falls a Bragdy'r Gogarth ar hyn.

Blighty Booch Kombucha fydd cynnyrch bwyd cyntaf Mark i'w farchnata a bydd yn cael ei lansio i'r byd diwydiant eleni gyda'r bwriad o ddod yn olygfa gyffredin ar silffoedd archfarchnad yn 2020 - hyd hynny os yr hoffech brofi Blighty Booch kombucha mae angen i chi edrych ar y wefan neu fynd i Farchnad Bwrdeistref ffasiynol Llundain a phrynu potel!

Ymunodd Blighty Booch Kombucha ag Academi Fusnes Gogledd Cymru yn 2018 a chwblhaodd y cwrs Dadansoddi Busnes Strategol (SBA), wedi ei ddilyn gan y cwrs Marchnata Busnes Cam 2 yn Chwefror 2019.

Mae Mark Pavey, Sylfaenydd y Blighty Book Kombucha yn egluro:

***"Bu Academi Busnes Gogledd Cymru yn brofiad gwerth chweil. Bu'r cwrs Dadansoddi Strategol ym maes Busnes (SBA) yn arbennig o gynorrthwyol i mi edrych ar fy nghynllun busnes mewn modd beirniadol a chwbl ymarferol.***

***Mi wnes i ddarganfod fod cael cynllun busnes clir wedi ei ymchwilio'n llawn yn drwydded i'r Banciau eich cymryd chi a'ch busnes o ddifrif.***

***Dwi hefyd yn mynychu'r cwrs Marchnata Busnes Cam 2 gyda golwg ar roi'r wybodaeth sydd gennyf eisoes mewn cyd-destun damcaniaethol.***

***Mae'r hyn a ddysgais yn sicr yn mynd i fy helpu i sicrhau fy mod yn cael gwasanaeth o werth gan bobl broffesiynol ym myd Cysylltiadau Cyhoeddus yr wyf yn gweithio â nhw i ddatblygu'r busnes.***

***Mae ymuno ag Academi Busnes Gogledd Cymru yn sicr wedi cael effaith gadarnhaol ar y busnes cyn belled - bydd y profiad, y cysylltiadau a'r profiad cynllunio rwyf wedi eu hennill yn gymorth gobeithio i Blighty Booch Kombucha ddod yn fusnes trawsnewidiol yn economi Gogledd Orllewin Cymru."***

## Prosiect Arweinyddiaeth ION

Caiff prosiect Arweinyddiaeth ION ei arwain gan Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, gyda chefnogaeth gwerth £5.7 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gynyddu sgiliau a datblygu cynhyrchiant a throsiant mewn busnesau bach a chanolig ac mewn cwmnïau mawr.

Mae'r fenter wedi cefnogi mwy na 1,600 o reolwyr, egin arweinwyr ac entrepreneuriaid mewn mwy na 1,000 o fusnesau i ddatblygu sgiliau ansawdd uchel trwy raglen arweinyddiaeth wedi'i thargedu sy'n ceisio cynyddu cynhyrchiant yn y gweithle wrth ddatblygu mentrau cynaliadwy, proffidiol.

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar ddysgu ymarferol, profiadol gyda grŵp o gyfoedion. Bydd y cyfranogwyr yn gallu arbrofi gyda gwahanol arddulliau arweinyddiaeth a dysgu sut i weithredu'r ffyrdd diweddaraf o feddwl, strategaethau ac arfer gorau yn eu busnes eu hunain.

**Astudiaeth achos - Emily Roberts** https://ionleadership.co.uk/cy/videos

Emily Roberts o MSparc, canolbwynt busnes ar Ynys Môn, sy'n gartref i 30+ o fusnesau ar hyn o bryd. Graddiodd Emily'n ddiweddar o'r rhaglen Arweinwyr Newydd.

Roeddwn i'n gwybod y byddai angen sgiliau arweinyddiaeth arnaf yn y dyfodol, nad oedd gen i, felly penderfynais edrych i mewn i Arweinyddiaeth ION a gwneud rhywbeth newydd gan ddysgu sgil newydd, er nad oedd gen i nod penodol mewn golwg. Yn bersonol, cefais llawer o fudd o raglen Arweinyddiaeth ION oherwydd roeddwn i'n hollol newydd i'r rhaglen a doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Roedd dysgu'r gwahaniaeth rhwng arweinydd a rheolwr yn bwysicach nag a feddyliais, yn enwedig gwybod sut i newid eich arddull arweinyddiaeth i adlewyrchu pobl eraill. Roedd popeth a ddysgais yn newydd a defnyddiol iawn, nid dim ond rhannu gwybodaeth er mwyn ei rhannu oedd hyn, ond roedd yn ymarferol a buddiol i mi.

Rwy'n credu bod busnes M-Sparc wedi elwa o'r sgiliau rwyf wedi'u dysgu, gallaf eu defnyddio'n ymarferol bob dydd. Mae budd o fod ag aelod o staff sydd wedi uwchsgilio ac sy'n defnyddio'r sgiliau hynny, nid er mwyn fi fy hun yn unig, ond pan fydda i'n rheoli aelodau eraill o staff, gan fy mod i'n eu haddysgu nhw hefyd, felly rwy'n arweinydd gwell.

Cyn i mi fod yn rhan o raglen Arweinyddiaeth ION, nid oeddwn i'n gwybod beth oedd arweinydd go iawn, a'r gwahaniaeth rhwng arweinydd a rheolwr ac ai dim ond dweud wrth pobl beth i'w wneud oedd hyn? Nawr rwy'n deall sut i arwain a sut i reoli, er fy mod i'n dal i ddysgu bob dydd, rwy'n gwybod bod gen i sgiliau i gefnogi hynny, felly mae wedi newid sut fyddwn i'n arwain neu reoli tîm yn llwyr.

***"Byddwn i'n argymell rhaglen Arweinyddiaeth ION yn bendant, hyd yn oed os nad ydych chi'n siŵr beth fyddech chi'n ei gael ohoni; os ydych chi'n newydd i reoli arweinyddiaeth ac am ddysgu sgiliau newydd, ION yw'r cwrs i chi."***



**20 Twenty Leading Business Growth**

Darparu sgiliau galwedigaethol a phroffesiynol lefel uwch ar Lefel 3 i 7 ISCED yn seiliedig ar y Rhaglenni Arwain Twf a LEAD hynod o lwyddiannus, i arweinwyr sefydliadau trwy raglenni ac ymyriadau datblygu. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno ar y cyd â 20Twenty ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn nwyrain Cymru a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Mae 20Twenty wedi darparu Rhaglenni Arweinyddiaeth yn llwyddiannus i gymysgedd o fusnesau bach, canolig a mawr, yn Wrecsam, Powys a Sir y Fflint. Y Rhaglenni: Mae 20Twenty CMI (Sefydliad Rheolaeth Siartredig) Lefel 7 wedi'i anelu at Reolwyr Gyfarwyddwyr, Perchnogion Busnes ac Uwch Reolwyr sydd â dros ddwy flynedd o brofiad ac yn werth £8,000, ac mae wedi'i ariannu hyd at 70% gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae 20Twenty CMI (Sefydliad Rheolaeth Siartredig) Lefel 4 wedi'i anelu at Reolwyr, Arweinwyr Tîm a Goruchwylwyr profiadol, mae'n werth £4,000, ac mae wedi'i ariannu hyd at 70% gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Mae 20Twenty Business Growth wedi bod yn darparu rhaglenni Arweinyddiaeth ers 2016 ac maen nhw wedi llwyddo i ddarparu cyfanswm o 18 Carfan. Y targed o ran cynrychiolwyr ar gyfer 20Twenty oedd 320, fodd bynnag, mae 20Twenty wedi recriwtio 335 o fusnesau o Wrecsam, Powys a Sir y Fflint gan lwyddo i fynd y tu hwnt i'w targed.

**Astudiaeth achos - Twf Busnes Parhaus Ar Gyfer Platts Agriculture Ltd ar 50fed Pen-blwydd**

Mae cwmni teuluol o fri sy'n agosáu at ei ben-blwydd yn hanner cant wedi mynd o nerth i nerth diolch i'n rhaglen fawreddog Twf Busnes 20Ugain, a gyflwynir gan Ysgol Busnes Prifysgol Bangor, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Roedd Caroline Platt, Rheolwr Gyfarwyddwr Platts Agriculture Ltd yn Llai, Wrecsam, ymhlith un o'r perchnogion busnes cyntaf i gwblhau'r rhaglen 20Ugain yn Wrecsam. Ers i Caroline raddio yn 2018, mae pedwar aelod o'i thîm presennol wedi dilyn y rhaglen ar garfanau diweddar; y Cyfarwyddwr Ariannol Ian Hall, Rheolwr Trafnidiaeth y Grŵp – Ashley Wood, y Pennaeth Adnoddau Dynol Nerys Price-Jones a raddiodd gyda chyflogwr blaenorol (Silverlining Ltd) a Nadia McKane, y Rheolwr Gwerthiant a Marchnata.

Mae Caroline wedi cyflogi staff newydd ers dechrau'r pandemig Covid-19 ac mae hefyd wedi lansio busnes cludo nwyddau. Mae Platts yn un o'r cwmnïau mwyaf uchel ei barch yn y rhanbarth ac yn ddiweddar cafodd ei enwi'n 'Gwmni Teuluol y Flwyddyn' y DU yng Ngwobrau'r Ffederasiwn Busnesau Bach.




Cyngor Gwynedd Council · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru EU Funds: Investing in Wales



CAROLINE PLATT, RHEOLWR GYFARWYDDWR PLATTS AGRICULTURE LTD (AIL O'R CHWITH)

***"Cafodd 20Ugain effaith gadarnhaol ar eu busnes dros y blynyddoedd ac mae wedi chwarae rhan fawr yn eu twf strategol."***

***Dywedodd Caroline "Dysgais gymaint ar y rhaglen am arweinyddiaeth a rheolaeth, ond hefyd gan weddill y grŵp. Daethom ni i gyd at bethau o wahanol onglau ac roeddem yn gallu rhannu'r arferion gorau ac roedd yr agwedd rwydweithio yn amhrisiadwy".***

***Sy'n eiriolwr brwd dros Ysgol Busnes Bangor, y byddai 20Ugain yn helpu unrhyw un mewn swydd arweinydd. Mae'r cyfuniad o addysg, cymorth a gwybodaeth am y diwydiant yn rhoi'r sgiliau i chi ffynnu, beth bynnag fo'r diwydiant."***

Gyda chysylltiadau agos â llawer o'r garfan a thrwy Ysgol Busnes Bangor a Labordai Doethineb 20Ugain, mae Caroline yn gallu parhau â'i thaith bersonol a phroffesiynol, sydd oll yn chwarae rhan yn nhwf y cwmni. Mae aelodau eraill o'r tîm wedi ymrestru ar y rhaglen, fel bod staff yn gallu gweithio gyda'i gilydd i wireddu nodau busnes hirdymor tra'n cynnal diwylliant croesawgar gan fod Platts Agriculture Ltd yn gefnogwr enfawr o Raglen 20Twenty.

**Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS 2)**

Mae Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS 2) yn rhaglen fawr £36miliwn ledled Cymru sy'n cysylltu cwmnïau a sefydliadau gydag arbenigedd academaidd yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru er mwyn cyflawni prosiectau ymchwil cydweithredol, gweithio tuag at gymhwyster PhD neu Feistr Ymchwil. Mae elfennau ymchwil wedi'u hintegreiddio gyda rhaglen hyfforddi sgiliau lefel uwch, gan arwain at Wobr Datblygu Sgiliau Ôl-raddedig.

Mae KESS 2 yn cynnwys holl brifysgolion yng Nghymru ac wedi'i arwain gan Brifysgol Bangor. Yn dilyn y prosiect KESS hynod lwyddiannus rhwng 2009 a 2014, mae KESS 2 bellach yn yr ail rownd o gyllid a bydd yn darparu 645 o ysgoloriaethau (PhD: 335, Meistr Ymchwil: 310) dros gyfnod o chwe blynedd. Mae prosiectau KESS 2 yn unigryw yn y ffordd maent wedi cael eu teilwra i ddarparu ymchwil cyffrous ac arloesol wrth fodloni anghenion busnes gweithredol neu ei sector. Rhaid i ymchwil a gyflawnir drwy brosiect KESS 2 gyd-fynd ag un o bedwar Maes Her Llywodraeth Cymru (Gwyddorau Bywyd ac Iechyd, Deunyddiau a Pheirianneg Uwch, Yr Amgylchedd ac Ynni Carbon Isel, TGCh a'r Economi Ddigidol).

Cyngor Gwynedd Council · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru EU Funds: Investing in Wales

**Astudiaeth Achos Alumni KESS 2 : Dr Abigail Lowe**

Dr Abigail Lowe, Gwyddorau Biolegol: Ymchwilydd Botanegol ac Infertebratau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Mae gerddi'n gynefinoedd hanfodol i bryfed peillio, gan ddarparu adnoddau blodeuol ac ardaloedd nythu. Mae llawer iawn o gefnogaeth gyhoeddus i dyfu planhigion sy'n "gyfeillgar i bryfed peillio" ond, er bod rhestrau yn bodoli o'r planhigion sydd orau ar gyfer peillwyr, maent fel arfer yn anghyson, heb eu cefnogi'n dda gan ymchwil wyddonol, ac yn targedu grŵp cyfyngedig o bryfed peillio. I fynd i'r afael â'r broblem hon, roedd fy ymchwil PhD yn cynnwys defnyddio metabarcod DNA i nodi pa blanhigion y mae cacwn, gwenyn mêl, gwenyn unigol, a phryfed hofran yn ymweld â nhw. Canlyniadau allweddol y gwaith hwn yw bod mwy o wybodaeth am ryngweithiadau peillwyr planhigion i gefnogi cadwraeth peillwyr, a'r gallu i wella rhestrau argymhellion planhigion ar gyfer garddwyr a thirfeddianwyr.

Darllenwch fwy yma: https://kess2.ac.uk/cy/case-studies/abigail-lowe/

**UCHAFBWYNTIAU CYFRANOGIAD KESS 2**

Fel rhan o fy ysgoloriaeth KESS 2, bûm yn ffodus i fynychu dwy gynhadledd ryngwladol i gyflwyno fy ngwaith. Mynychais Gyngres Bioleg Cadwraeth Ewropeaidd yn Jyväskylä, y Ffindir yn fy mlwyddyn gyntaf i gyflwyno poster ymchwil o fy mhrosiect. Yn fy ail flwyddyn, rhoddais gyflwyniad llafar yng Nghynhadledd Ryngwladol Barcode of Life yn Trondheim, Norwy. Roedd y ddwy gynhadledd hyn yn gyfle gwych i rwydweithio ag ecolegwyr a dysgu gan amrywiaeth o ymchwilwyr.

Uchafbwyntiau eraill a ddeilliodd o fy ysgoloriaeth KESS 2 oedd cyfarfod â phobl nodedig fel Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru (Peter Halligan) a nifer o swyddogion y llywodraeth ar ymweliadau â'r Ardd Fotaneg, gan gyfleu pwysigrwydd peillwyr a sut mae fy ngwaith ymchwil yn cyfrannu at eu cadwraeth.

***"Caniataodd KESS 2 i mi wneud fy ymchwil yn fy ngwlad enedigol, sef Cymru, ac mae wedi fy ngalluogi i barhau i weithio gyda sefydliad sydd wedi bod yn hanfodol i'm datblygiad gyrfa. Mae'r prosiectau cydweithredol y mae KESS 2 yn eu cefnogi yn unigryw ac wedi'u hintegreiddio â datblygiad sgiliau lefel uchel, gan ddarparu dewis arall deniadol i leoliad academaidd traddodiadol. Darparodd KESS 2 gyfoeth o gyfleoedd hyfforddi i mi er mwyn cynorthwyo fy natblygiad gyrfa ac rwy'n ddiolchgar iawn amdanynt. Rwy'n hyderus fy mod wedi ennill sgiliau ymchwil academaidd gwerthfawr ochr yn ochr â'r rhai sydd eu hangen ar gyfer gyrfa ym maes cadwraeth bioamrywiaeth."***





CYNGOR GWYNEDD COUNCIL · CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL · CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL · Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · wrexham wrecsam · Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru EU Funds: Investing in Wales

**Mae Agile Nation2 - Rhaglen Cymorth Busnes a gaiff ei darparu gan Chwarae Teg, yn cynnig cyngor,** cefnogaeth ac adnoddau arfer gorau er mwyn sicrhau nad yw merched dawnus yn cael eu heithrio wrth recriwtio na'u hanghofio pan fo cyfle am ddyrchafiad – mae'r canolbwynt ar recriwtio, cadw, cynnydd. Mae Agile Nation2 wedi cefnogi merched a gweithio gyda chyflogwyr i hyrwyddo datblygiad gyrfaoedd merched a helpu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'n cefnogi merched mewn gwaith i ddatblygu eu gyrfaoedd trwy ddarparu cymwysterau arweinyddiaeth achrededig a mentora a chefnogi busnesau i weithredu strategaethau cydraddoldeb ac arferion gweithio modern.

| | |
|---|---|
| **29** | **Busnes wedi'i gefnogi drwy Raglen Fusnes Cenedl Hyblyg 2** |
| **26** | **O'r rhain wedi mabwysiadu neu wella'u strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth** |
| **11** | **Wedi ennill ein gwobr Cyflogwr Chwarae Teg, sy'n arddangos busnesau sy'n enghreifftiau o arfer gorau ac ymrwymiad tuag at greu gweithleoedd teg a hyblyg** |

**Astudiaeth achos: Banc Datblygu Cymru (Cymru Gyfan)**

Nifer y cyflogeion: 248 employees. Lefel gyfredol Gwobr Cyflogwr Chwarae Teg: Arian

***"Mae gan Gymru economi fusnes fywiog ac amrywiol, ac rydym yn awyddus i adlewyrchu hynny yn ein gweithlu. Dyna pam mae gweithio tuag at fwy o gydbwysedd rhwng y rhywiau yn bwysig iawn i ni fel sefydliad. Po fwyaf amrywiol yw ein gweithlu, y gorau y gallwn ni gefnogi ein cwsmeriaid a'u hanghenion. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd y gallwn helpu entrepreneuriaid i ddechrau busnesau, a thrwy ein strategaethau Busnes Cyfrifol ac Effaith - rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn ni fel busnes helpu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.*** **"Mae gweithio gyda Chwarae Teg wedi rhoi cipolwg gwirioneddol i ni ar feysydd lle gallwn wneud mwy a hyrwyddo polisïau sy'n annog mwy o amrywiaeth rhywedd. Rydym yn falch iawn o dderbyn Gwobr Arian Chwarae Teg eleni, ac rydym wrthi'n gweithio i wella ym mhob maes."**

Beverley Downes, yfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu, Banc Datblygu Cymru

**Astudiaeth achos: Wish Wash Company**

Mae'r Wish Wash Company, sydd wedi'i leoli yn y Rhyl, wedi bod yn masnachu ers 14 o flynyddoedd. Busnes glanhau amryfal sy'n gwneud gwaith yn amrywio o waith preswyl i waith masnachol, gan gynnwys ceir, cartrefi, gerddi a bioberygl. Mae ganddynt gontract cenedlaethol ar gyfer cwmni cyflenwi mawr, ac mae eu 78 o gyflogeion wedi'u gwasgaru ledled y DU. Mae gan y Wish Wash Company ffocws cryf ar ymgysylltu â chyflogeion, ac mae recriwtio staff a'u cadw yn allweddol i gefnogi eu busnes, ond heb eu swyddogaeth adnoddau dynol eu hunain, roedd prosesau recriwtio a rheoli perfformiad yn anghyson ar draws y busnes. Roeddent yn awyddus i fynd i'r afael â hyn, a chofrestrodd y cwmni i gymryd rhan yn Rhaglen Fusnes Cenedl Hyblyg 2 Chwarae Teg er mwyn manteisio ar y cymorth ymgynghori a oedd yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim. Yn dilyn yr arolwg a anfonwyd at yr holl staff a'r adolygiad o arferion gwaith cyfredol, gwnaeth Partner Cleient Chwarae Teg nifer o argymhellion a rhoi cefnogaeth i Wish Wash roi rhai newidiadau ar waith.

- *Datblygu a mabwysiadu proses recriwtio ffurfiol*
- *Uwchsgilio rheolwyr mewn Rheoli Perfformiad effeithiol*
- *Rhoi proses Wobrwyo a Chydnabyddiaeth ffurfiol ar waith ledled y sefydliad*

Enillodd y Wish Wash CompanyWobr Cyflogwr Chwarae Teg Arweiniol, gan dynnu sylw at eu hymrwymiad i arferion amrywiol a chynhwysol o fewn y gweithle. Ar ôl rhoi'r cynllun gweithredu ar waith yn dilyn yr arolwg i'r holl staff, maeWish Wash wedi gwella ansawdd yr ymgeiswyr swyddi, wedi gwella hyder a gallu'r rheolwyr i fonitro ac adolygu perfformiad, ac mae hyn, yn ogystal â rhoi cynllun gwobrwyo ar waith, wedi golygu bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy.

***"Mae'r hyfforddiant rheoli wedi bod yn hynod werthfawr i ni ac mae wedi bod o gymorth i ni gael yr hyder i reoli rhai materion staff anodd."***